# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I'R CABINET**

13 Medi, 2016

**Aelod Cabinet:** Cyng. Mandy Williams-Davies, Aelod Cabinet Economi a Chymuned

**Pwnc:** Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Economi a Chymuned

**Swyddog Cyswllt:** Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

**Y penderfyniad a geisir**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn yr aelod lleol**

Ddim yn fater lleol.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Economi a Chymuned. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau yn yr Adran.

**2. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

2.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**3. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL**

Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2016-17 yn y maes Economi. Er mwyn atgoffa Aelodau, mae geiriad y cynllun strategol wedi ei nodi mewn glas.

**3.1. T1 Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd**

**Pwrpas y prosiect yma yw creu'r amodau er mwyn creu swyddi gwerth uchel o ansawdd yn y Sir.**

**Cynnydd y prosiect:**

**i. Sectorau**

Er mwyn hybu'r sector digidol yn benodol, mae'r prosiect wedi recriwtio 5 o bobl ifanc lleol i weithio gyda busnesau digidol ym Mharc Menai dros yr Haf i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael yn y Sir. O ran y sector greadigol, mae trafodaethau ynglŷn â chydweithrediad pellach rhwng BAFTA Cymru a Gogledd Creadigol yn parhau.

**ii. Buddsoddiad i Ardal Trawsfynydd a Llanbedr**

Mae'r prosiect wedi ymateb a chyfrannu tuag at waith Tasglu Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ymateb i'r colledion swyddi o ganlyniad i dadgomisiynnu Trawsfynydd a Wylfa. Mae'r Arweinydd yn Aelod o'r Tasglu ac mae swyddogion yn Adran yn cyfrannu at waith y grŵp swyddogion cysylltiedig. Yn benodol rydym yn gweithio i sicrhau fod anghenion unigol Meirionnydd yn cael sylw y tu hwnt i'r hyn fydd yn cael ei ddarparu yn Wylfa gan adlewyrchu effaith mwy dwys colledion swyddi yn yr ardal hon. Mae'r rhaglen lobio lefel uchel ar gyfer sicrhau maes gofod i Lanbedr a'r datblygu pwerdy SMR ar safle Trawsfynydd yn parhau.

Bu i mi fynychu cynadleddau ar y ddau faes yn Llundain yn ystod y cyfnod dan sylw ynghyd â chyfarfodydd gyda nifer o sefydliadau ac unigolion dylanwadol o fewn y meysydd i hyrwyddo achos Gwynedd ar gyfer buddsoddiad.

### 3.2. T2 Cadw'r Budd yn Lleol

**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau bod gan fusnesau'r Sir yr wybodaeth a'r gallu i fanteisio ar y drefn gaffael gwasanaethau a nwyddau newydd y Cyngor.**

**Cynnydd y prosiect:**

**i. Uchafu gwariant y Cyngor efo busnesau lleol**

Mae cynllun cyfathrebu drafft wedi ei lunio ar gyfer ymgysylltu gydag adrannau a'r farchnad, ac mae cwmni wedi'i benodi i ddatblygu brand y prosiect. Mae amryw o negeseuon i amlygu cyfleoedd lleol wedi rhannu ac mae'r Uned Gyfathrebu yn drafftio datganiad i'r wasg yn dilyn llwyddiant y Cyngor i ennill gwobr caffael genedlaethol yn ystod yr wythnos caffael a gynhaliwyd gan y Brifysgol. Mae'r prosiect hefyd yn ceisio ystyried dadansoddi gwybodaeth am gytundebau sy'n cael eu cynnig i isgontractwyr er mwyn cael darlun llawn a mwy cytbwys o effaith ein gwariant caffael fel Cyngor.

**ii. Mewnosod Trefniadau Rheolaeth Categori o fewn y Cyngor Gwynedd**

Mae'r gwaith o fewnosod strwythur ar gyfer categori pobl wedi'i gwblhau ac mae cynlluniau eisoes ar waith. O ran categorïau Amgylchedd a Chorfforaethol, gyda chymorth Athrofa Caffael a chystadleuaeth Prifysgol Bangor, mae'r gwaith ymgysylltu gydag adrannau'r Cyngor wedi'i gwblhau, ac mae'r adroddiad hwnnw wedi'i ddosbarthu i'r Penaethiaid. Bydd Athro. Dermot Cahill yn mynychu Cyfarfod gydag Aelodau Cabinet ym mis Medi i gyflwyno ei ddarganfyddiadau a chael trafodaeth bellach ar y mater.

### 3.3. T3 Gwynedd Digidol

**Pwrpas y prosiect yma yw cefnogi ymdrechion i drawsnewid defnydd busnesau, gwasanaethau a thrigolion Gwynedd o dechnoleg dewy sicrhau bod darpariaeth o fand eang cyfoes ar draws y Sir.**

**Cynnydd y prosiect:**

Ers i mi adrodd tro diwethaf, mae'r prosiect wedi bod yn canolbwyntio ar drafod dulliau amgen o ennyn diddordeb busnesau o'r cymorth sydd ar gael gan Raglen Cyflymu Cymru i Fusnesau. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys gweithdai a chymorth un i un ar-lein.

Mae data diweddar yn destun pryder i mi gan, er bod bron i 4,000 o gartrefi/busnesau wedi eu gwasanaethau drwy ddarpariaeth o ffibr i eiddo unigol gan y rhaglen Cyflymu Cymru, sef y nifer uchaf yng Nghymru, mae llai na 250 (sef 5%) wedi tanysgrifio i'r ddarpariaeth. Mae angen gwella ymwybyddiaeth busnesau a chartrefi sy'n gallu derbyn y ddarpariaeth yma o'i argaeledd. Mae'n deg dweud bod hyn yn mynd i fod yn heriol, ond bydd angen meddwl am ffyrdd gwahanol ac arloesol o farchnata'r ddarpariaeth sydd ar gael. Rwyf wedi gofyn i'r Adran Economi ganolbwyntio ar hyn yn ystod y cyfnod nesaf fel ein bod yn gweld cynnydd yn nifer o bobl sy'n tanysgrifio.

Ar nodyn positif, mae cynllun peilot i ddarparu wi-fi cyhoeddus yn Aberdaron gan fanteisio ar y ddarpariaeth band eang cyflym yn y Sir yn mynd o nerth i nerth, gyda thua 2,000 o ddefnyddwyr hyd yn hyn, ac oddeutu 50 wedi talu i gael mynediad estynedig. Mae'r prosiect yma yn cydweithio'n agos gyda phrosiect T4 Cefnogi Economi Wledig er mwyn treialu'r ddarpariaeth yma, gyda'r bwriad o ddatblygu canllaw i gymunedau eraill efelychu enghraifft Aberdaron yn y dyfodol.

### 3.4. T4 Cefnogi economi wledig

**Pwrpas y prosiect yw amodau i gryfhau sail economi wledig Gwynedd gan annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal cyflogaeth ar draws cymunedau Gwynedd. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar adeiladu ar gryfderau Gwynedd a byddwn yn cyfeirio ymdrech i ardaloedd mwyaf gwledig y Sir.**

**Cynnydd y prosiect:**

Cafodd Cynllun Cyflogaeth Llyn ac Eifionydd ei drafod a'i fabwysiadu yng nghyfarfod y Cabinet ar 28 Mehefin. Bydd y Cynllun nawr yn cael ei ddylunio a'i gyhoeddi yn ffurfiol.

Hyd yma, mae 15 o dreialon bellach yn weithredol trwy raglen LEADER yng Ngwynedd gan gynnwys gofod gweithio ar y cyd i fusnesau, gwasanaeth wi-fi cyhoeddus mewn pentrefi gwledig, a chronfa buddsoddi i geisio annog mwy o fentergarwch. Mae gwaith ymchwil/datblygu pellach drwy law LEADER yn cael eu cynnal i'r meysydd isod:

- Dynodiad awyr dywyll ardal y Parc Cenedlaethol;
- Gwasanaeth siopa i'r henoed;
- Manteisio ar dreftadaeth y Sir ac yn arbennig y posibilrwydd o ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi;

- Cymorth arbenigol i fodelu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau anstatudol;
- Cadwyni cyflenwi/rhwydwaith cynhyrchwyr bwyd a diod.

Mae trafodaethau wedi eu cynnal yn ddiweddar rhwng ardaloedd y Gogledd er mwyn datblygu cais cydweithredol o fewn maes bwyd a diod, gan edrych yn benodol ar gymorth i wyliau bwyd a datblygu '*food trails*'. Mae digwyddiad i'w gynnal gyda chynrychiolwyr o'r maes bwyd a diod er mwyn ceisio adnabod yr angen yn y maes.

Teg yw dweud ei bod yn rhy fuan i fesur os yw'r gweithgareddau yma yn cael effaith ar drigolion a chymunedau Gwynedd gan mai dim ond megis dechrau mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau. Fodd bynnag, bydd y tîm prosiect yn gwerthuso a chasglu data ar y cynlluniau LEADER uchod yn ystod cyfnod yr Haf sy'n mynd i roi syniad llawer gwell i ni os yw'r prosiectau'n gwneud gwir effaith.

### 3.5. T5 Safle Treftadaeth y Byd

**Pwrpas y prosiect hwn fydd creu budd economaidd o dreftadaeth gyfoethog Gwynedd. Byddwn yn canolbwyntio ar Safleoedd Treftadaeth Byd presennol ac yn cyflwyno achos am statws Safle Treftadaeth Byd i rannau o'r dyffrynnoedd llechi.**

**Cynnydd y prosiect**

Erbyn hyn mae cytundeb o gyd-ddealltwriaeth wedi'i arwyddo gan bob partner i ymrwymo i gefnogi'r enwebiad Llechi Cymru. Mae tîm wedi'i benodi o dan arweiniad Ymgynghoriaeth Govanon i ddatblygu'r enwebiad llawn, y cynllun rheolaeth safle a'r ddogfennaeth berthnasol i sicrhau enwebiad cryf. O ran amserlen, bydd yr enwebiad yn cael ei anfon i'r grŵp gwerthusiad technegol ym mis Medi 2017, gan ddisgwyl cymeradwyaeth erbyn Chwefror 2018.

Wrth gydweithio gyda Cadw, mae Gwynedd wedi denu cynhadledd flynyddol 'World Heritage UK' i Gaernarfon ym mis Hydref. Bydd dros 100 o bobl yn ymweld ag yn cael gweld Safle Treftadaeth Edward 1af yn ogystal â safleoedd arfaethedig yr enwebiad llechi.

### 3.6. T6 Gwella Mynediad pobl y Sir i waith ac ymateb i rwystrau

**Pwrpas y prosiect hwn fydd hwyluso a gweithredu pecyn o brosiectau er mwyn cefnogi unigolion bregus i mewn i waith. Mae'n brosiect rhanbarthol gyda Gwynedd wedi bod yn cyfrannu at gomisiynu gwaith.**

**Cynnydd y prosiect:**

Erbyn diwedd mis Mehefin, mae 118 o unigolion wedi cael cymorth trwy brosiect TRAC gyda'r prif sylw wedi'i roi i ddisgyblion Blwyddyn 11 er mwyn eu cefnogi i wneud dewisiadau pynciau coleg. Mae ethos TRAC ar ganolbwyntio i newid agweddau a meddylfryd o 'fethu gwneud' i 'mi wnâi drio'.

Rydym yn dal i ddisgwyl cymeradwyaeth i'r rhaglen OPUS, sy'n targedu oedolion bregus. Mae Ann Parri Williams bellach wedi'i phenodi fel Rheolwr Llesiant ac yn gyfrifol am symud y prosiect yn ei flaen. Unwaith eto, mae risg yma o ran canlyniad y refferendwm a'r goblygiadau i brosiectau fel hyn.

### 3.7. T8 Digwyddiadau Proffil Uchel a Strategol

**Pwrpas y prosiect hwn yw denu digwyddiadau proffil uchel Cenedlaethol neu Ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol sy'n deillio o hynny.**

**Cynnydd y prosiect:**

Mae'r cynllun wedi ymrwymo i weithio gyda 18 o ddigwyddiadau yn 2016-17, yn cynnwys 3 digwyddiad mawr:

- Tour of Britain
- Gŵyl Rhif 6
- Digwyddiadau Camu tua'r Copa

Mae hefyd wedi bod yn gweithio gyda digwyddiadau llai eu maint, e.e. Llanc y Llechi, Gŵyl Fwyd Tir a Môr a E-Tape Eryri. Mae'n rhy gynnar i nodi effaith y digwyddiadau yma, ond gwelir bod ffigyrau digwyddiadau chwaraeon i lawr tipyn o'i gymharu â llynedd. Erbyn hyn, mae nifer o ddigwyddiadau o'r math yma yn cymryd lle ar draws Prydain a bod cymaint o ddewis ar gael yn lleol, yna bod pobl yn annhebygol o deithio i ddigwyddiadau mewn ardaloedd eraill.

## 4. MESURAU

4.1. Yn ***Atodiad 1*** fe welwch chi gopi o holl fesurau sy'n gysylltiedig gyda fy mhortffolio.

4.2. Yn benodol, roeddwn i'n awyddus i dynnu sylw at y mesurau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Uchel 07** | 10 swydd gwerth uchel newydd wedi eu creu gan gwmni Nmi Gaming (www.nmi-gaming.com) sydd yn rhan o glwstwr byrlymus o fusnesau technoleg wedi eu lleoli ym Mharc Menai sydd yn cyflogi oddeutu 200 oll yn oll. Y cwmni, a'r clwstwr, yn derbyn cefnogaeth drwy law'r rhaglenni Swyddi Gwerth Uchel a Gwynedd Ddigidol. |
| **SD08** | Adnoddau ychwanegol o Raglen Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru (rhaglen Glannau Caernarfon) a Chymunedau i Waith Llywodraeth Cymru (cefnogaeth i'r di-waith yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf). |

4.3. Mae nifer o fesuryddion yr Adran yn adrodd yn flynyddol, felly bydd modd adrodd ar y wybodaeth pan fydd yn dod i law. Rwyf yn awyddus iawn i weithio gyda'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i ystyried ein mesuryddion caffael yn benodol oherwydd rwy'n teimlo bod angen dadansoddi faint o wariant sy'n gadael y Sir, ond hefyd os oes modd dal gwybodaeth ar y cytundebwyr mawr sydd tu allan i'r Sir ond yn is-gytundebu gyda chwmnïau lleol.

4.4. Yn ogystal, byddaf yn gweithio gyda'r Adran Economi a Chymuned i sicrhau bod y mesuryddion yn addas i bwrpas ac yn dal y wybodaeth hynny sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

## 5. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

5.1. Mae'n braf gallu adrodd bod yr oll o'r arbedion sydd wedi eu proffilio yn 2016-17, gan gynnwys y toriadau wedi eu gwireddu, a phob un o gynlluniau 2017-18 ar eu ffordd i wireddu yn llawn ac amserol.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

"Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn bwysig iawn oherwydd pwysigrwydd y maes i ffyniant y sir. Fel y mae'r adroddiad yn ei nodi, mae cynnydd mewn rhai meysydd yn gynt nag eraill (fel yr arafwch mewn tanysgrifio i'r ddarpariaeth ffibr i eiddo unigol) ac mae rhai meysydd prosiect lle y gall gymryd peth amser cyn y byddwn yn gweld gwahaniaeth ar lawr gwlad (fel y buddsoddiad yn ardaloedd Trawsfynydd a Llanbedr). Fodd bynnag, mae cadw ffocws ar y canlyniadau real hynny i drigolion yn eithriadol o bwysig."

**Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb."

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Cadarnhaf gyda boddhad y sefyllfa nodir yn rhan 5 o'r adroddiad, sef fod y cynlluniau arbedion perthnasol wedi eu gwireddu, neu ar eu ffordd i wireddu yn llawn ac amserol."

---

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Mesurau Maes Economi a Chymuned |

ITJ/ls
02.09.16